# Gwerth am Arian (GaA)

**Mae landlordiaid tai cymdeithasol wastad wedi anelu at ddarparu Gwerth am Arian. Fodd bynnag, gyda'r hinsawdd economaidd bresennol a mwy o ymwybyddiaeth tenantiaid a thryloywder o rent a delir, mae'r pwysau ar landlordiaid i wneud y defnydd gorau o adnoddau (arian).**

**Mae angen i landlordiaid fod yn fwy rhagweithiol ynghylch Gwerth am Arian a defnyddio eu hasedau (eiddo) a refeniw (incwm) yn fwy effeithiol i adeiladu a chynnal cartrefi.**

## Beth yw Gwerth am Arian? (GaA)

Nid yw Gwerth am Arian yn safon sengl ac mae ganddo sawl diffiniad. Fodd bynnag, mae Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio fel y **3 E** fel arfer. I gyflawni Gwerth am Arian, mae angen i bob un o'r 3 maen prawf / mesurau gael eu bodloni:

**Effeithiolrwydd** = cyflawni'r hyn yr aethoch ati i'w gyflawni (canlyniadau)
**Economi** = defnydd gofalus o adnoddau/arian o fewn rheolaethau cytuno i gyfyngu ar gost, amser ac ymdrech
**Effeithlonrwydd** = cynnal yr un lefel o weithgareddau / prosesau mewn modd amserol, syml gyda'r gwastraff lleiaf

Gall enghraifft o'r uchod fod yn rhaglen rhoi boeleri newydd:

**Effeithiolrwydd** = cwsmer yn byw mewn cartref cynnes, ynni isel, o ansawdd da, ac wedi ei gynnal yn dda. *(canlyniad!)*
**Economi** = y gost o gyflenwi, gosod a chynnal a chadw pob boeler
**Effeithlonrwydd** = y nifer o foeleri a osodwyd yn foddhaol/yn iawn y tro cyntaf o fewn cyfnod amser rhesymol.

## Ym mha wasanaethau y gellir defnyddio Gwerth am Arian?

Yn syml, gall Gwerth am Arian gael eu defnyddio gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir gan y landlord, gan gynnwys:

Trwsio a Cynnal a Chadw;
Rheoli Ystadau;
Cyfranogiad Tenantiaid /Preswylwyr;
Ymddygiad gwrthgymdeithasol;
Cefnogi Pobl;
Swyddogaethau Swyddfa;
Gwasanaethau Nwy;
Datblygiadau Newydd

## Beth yw manteision Gwerth am Arian?

Mae cyflawni Gwerth am Arian yn dangos bod landlordiaid yn defnyddio eu hasedau i'r budd mwyaf posibl, arbed costau wrth roi gwasanaethau o safon a darparu lefel uchel o fodlonrwydd am bris addas.

Manteision eraill Gwerth am Arian yw:.

Gwella gwasanaethau allweddol;
Gwella bodlonrwydd tenantiaid/preswylwyr;
Gwella gwerth cymdeithasol (yn fuddiol i'r gymdeithas a'r economi);
Lleihau taliadau gwasanaeth;
Creu swyddi

Mae Tenantiaid, Rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru, a'r adran Rheoliad eisiau gweld bod hyn yn digwydd.

## Cynnwys Tenantiaid gyda Gwerth am Arian

Dylai gweithio tuag at Werth am Arian fod yn ymagwedd partneriaeth gyda chyfrifoldeb ar y cyd gan y landlord a'r tenantiaid. Gall cynnwys tenantiaid ym mhroses Gwerth am Arian gymryd sawl ffurf ac mae'n bwysig bod tenantiaid yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan trwy ddefnyddio dulliau sy'n addas ar eu cyfer.

Gall cyfranogiad tenantiaid fod yn llwyddiannus wrth:

1. **Lunio gwasanaethau Gwerth am Arian**
2. **Asesu/monitro/sgriwtineiddio gwasanaethau**
3. **Gwneud penderfyniadau ar gyfer Gwerth am Arian**

Rhai enghreifftiau ymarferol o'r uchod yw:

Grŵp monitro Gwerth am Arian;
Cynllun awgrymiadau/e-bost tenantiaid;
Monitro tueddiadau mewn cwynion/canmoliaeth;
Grwpiau tasg a gorffen
Tenant Archwilwyr
Grwpiau Sgriwtini

**Gofynnir i landlordiaid ddangos bod gwerth am arian yn cael ei 'hymgorffori' ym mhopeth a wnânt: Mae gan denantiaid rôl bwysig i'w chwarae yn y broses hon.**

**Gallwn ni eich helpu ... P'un ai ydych yn Landlord neu'n Grŵp Tenantiaid ... cysylltwch â ni.**